Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan y cynadleddwyr ar ddiwrnod y weminar na chafodd eu hateb gan y cyflwynwyr oherwydd diffyg amser. Mae'r cyflwynwyr felly wedi ateb y cwestiynau ychwanegol hyn yma:

**Allwch chi ddweud mwy am ganlyniadau ar gyfer plant ar wahân i dlodi? Ac a oes unrhyw dystiolaeth ei fod yn cael ei roi i blant o'u genedigaeth?**

Enghreifftiau o ganlyniadau

- Arsylwyd bod plant yn aros mewn addysg yn hwy (addysg ôl-orfodol) mewn cynlluniau amrywiol (Manitoba, Gogledd Carolina) a phresenoldeb gwell yn yr ysgol (Gogledd Carolina)
- Dangoswyd bod problemau ymddygiad wedi gostwng 40% yng Ngogledd Carolina
- Nodwyd perthynas well rhwng plant a rhieni yng Ngogledd Carolina
- Gostygniad o 22% mewn gweithgaredd troseddol wedi ei hunan-adrodd (i'w rhieni) ymysg pobl 16 ac 17 oed, yn ymwneud yn arbennig â delio mewn cyffuriau a mân droseddau
- Arsylwyd mynychder is o anhwylderau seiciatrig ac anhwylderau defnyddio sylweddau ymysg plant sydd yn tyfu i fod yn oedolion ac yn astudiaeth hydredol cynllun Gogledd Carolina – roedd y rheiny oedd ifancaf ar ddechrau'r taliadau difidend yn llai tebygol o fod wedi datblygu problemau iechyd meddwl neu anhwylderau defnyddio sylweddau

O ran taliadau incwm sylfaenol i blant:

- Yng Ngogledd Carolina, mae plant yn y gymuned lwythol yn derbyn canran lawn ond mae'r arian yn cael ei fuddsoddi hyd nes eu bod yn graddio o'r ysgol uwchradd neu'n cyrraedd 21 oed.
- Gellir hawlio taliad Cronfa Barhaol Alaska gan riant ar ran plentyn, ond nid oes unrhyw gyfyngiad ar y ffordd y mae'r rhiant yn ei ddefnyddio.

**Rydych wedi cyflwyno canfyddiadau diddorol sydd yn dangos buddion UBI; ar lefel poblogaeth ydych chi'n teimlo y byddai UBI yn cael digon o effaith i leihau annhegwch iechyd a chymdeithasol – neu a oes mesurau polisi eraill fydai'n cael mwy o effaith yn y tymor canolig a hirdymor e.e. addysg, swyddi gwell.**

- Nid wyf yn credu bod unrhyw un yn ystyried yn realistig bod incwm sylfaenol yn foddion ar gyfer pob annhegwch, ac yn wir mae'r dystiolaeth hirdymor sydd gennym o weithredu incwm sylfaenol yn gymysg, gydag ychydig gynlluniau yn unig yn bodoli y tu hwnt i dair blynedd. Ond gallai incwm sylfaenol yn sicr chwarae rôl ar y cyd â gweithredoedd polisi eraill fel 'cyfres' o weithredoedd i leihau annhegwch – fel y mae ein hadroddiad yn pwysleisio, fodd bynnag, bydd effeithiolrwydd a chanlyniadau i gyd yn dibynnu sut mae'r polisi'n cael ei ddylunio (ar gyfer pwy, pa lefel taliad).

**Sut gallwch sicrhau y bydd hyn yn grymuso unigolion? Mae'n wir angen meddwl am yr ymagwedd hon a deall y broblem fel y diffinnir gan y boblogaeth darged cyn i ni feddwl am ateb**

- Cytuno – bydd angen ymgynghori helaeth ar gynnig wedi ei ddylunio'n dda. Ac mae'n rhaid i wneuthurwyr polisïau fod yn ymwybodol y gallai unigolion wrthod y 'cynnig' os bydd incwm sylfaenol yn cael ei gynnig.

**UBI yn cael ei gyflwyno'n syth i gyfrifon banc pobl – nid oes gan bob unigolyn gyfrif banc (e.e. pobl ddigartref, henoed ac ati); felly mae hyn yn gwahaniaethu ar unwaith?**

- Ceir ymagweddau eraill - h.y. treial Santa Clara, unigolion yn derbyn taliad trwy wasanaeth ar ap (Venmo). Fodd bynnag, mae incwm sylfaenol hefyd efallai yn gyfle i helpu unigolion i ddatblygu eu lles ariannol, dechrau cyfrif banc am y tro cyntaf a deall cyllid personol – unwaith eto, mae Santa Clara yn cynnig mentora ariannol ynghyd â'u taliad trwy undeb credyd. Gallai incwm sylfaenol fod yn gymaint am ddatblygu asedau ag y mae am daliad uniongyrchol.

**A oes gan y siaradwyr deimlad o'r cwmpas a allai fodoli i ddylanwadu ar fesurau canlyniad peilot? Mae'n bwysig ystyried mesurau priodol o lesiant unigol ac ar y cyd.**

- Fel y nodir yn yr adroddiad, mae posibilrwydd o ystod gyfan o ganlyniadau y gellid eu mesur, gan fod gan incwm sylfaenol y potensial i ddylanwadu ar bob agwedd ar ein bywydau dyddiol e.e. dewisiadau tai, dewisiadau trafnidiaeth, pryniannau bwyd. Dyma pam y mae ymchwil ansoddol ar gyfer incwm sylfaenol yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, na rhestr ragnodedig o ddangosyddion meintiol, yn arbennig ar gyfer treial tymor byr, felly ceisiwch gyfleu profiadau unigol mor gyflawn â phosibl.

**A oes safbwynt am y ffordd y mae hyn o fudd i'r rheiny mewn cymdeithasol gan ei fod yn cael ei roi i enillwyr uchel hefyd, ar wahân i leihau stigma? A fu cynlluniau peilot sydd wedi roi cyfle i'r cefnog roi i grŵp lleol/elusen/undeb credyd ac ati?**

- Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau peilot sydd wedi rhoi taliadau i enillwyr uchel – wrth gwrs bydd y cynlluniau hirsefydlog (Cronfa Barhaol Alaska, er enghraifft) sydd yn rhoi taliad i bob preswylydd yn ddi-amod, yn cynnwys enillwyr uwch, ond nid wyf yn siŵr am unrhyw ymchwil yn ymwneud yn benodol â defnydd enillwyr uchel o daliadau. Nid wyf, chwaith, yn ymwybodol o gynlluniau peilot sydd wedi eu dylunio fel y mae ail ran y cwestiwn hwn yn amlinellu.
- Rwy'n credu gyda chwestiynau fel hyn rydym yn dod ato gyda'r honiad y bydd enillwyr uchel bob amser yn enillwyr uchel. Beth sydd yn digwydd os byddant yn colli eu swydd? Byddai Incwm Sylfaenol yn sicrhau bod gan y bobl hyn bob amser y rhwyd ddiogelwch honno nad oes ganddynt heddiw efallai.

**Adam, a gynhaliwyd dadansoddiad o systemau budd-dâl cymdeithasol gwahanol ar wahân i UBI sydd yn cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill – i ddeall y buddion iechyd a chymdeithasol, effaith ar gyrhaeddiad addysgol, canlyniadau anfwriadol ac ati. Er enghraifft, rwy'n meddal am y gwledydd Nordig e.e Norwy.**

- Mae'n ddrwg gen i, mae hwn y tu hwnt i gylch gorchwyl fy ngwaith, felly nid wyf yn siŵr. Rwy'n siŵr y byddai'n ddiddorol iawn edrych i mewn iddo, fodd bynnag. Mae'n werth nodi mai rhan o'r ysgogiad y tu ôl i'r arbrawf yn y Ffindir oedd i brofi incwm sylfaenol fel model i ddisodli neu ailddylunio lles presennol yn y wlad honno ar gyfer poblogaethau penodol (di-waith hirdymor).

**A oes unrhyw dystiolaeth o effeithiau UBI ar y farchnad lafur?**

- Oes – effeithiau i'r ddau gyfeiriad (mwy/llai o waith) yn ddibwys. Mae rhai cyfranogwyr yn lleihau i waith rhan-amser, ond mewn rhai enghreifftiau mae hyn wedi cynyddu cyfleoedd i eraill fynd i mewn i'r farchnad lafur. Mae eraill wedi defnyddio'r cymorth i ddechrau eu busnesau eu hunain

**Beth fyddech chi'n ei awgrymu yw'r ffordd orau o gefnogi unigolion sydd yn gweithio mewn cyflogaeth amser llawn ac efallai'n methu hawlio Credyd Cynhwysol? Mae tystiolaeth wedi dangos bod llawer o weithwyr gofal iechyd ar isafswm cyflog ac yn cael anhawster yn darparu ar gyfer eu teulu. Ydych chi'n credu y dylai bod mwy o ffocws nid yn unig ar y rheiny sydd yn ddi-waith, ond hefyd ar y rheiny sydd mewn cyflogaeth amser llawn, yn arbennig y rheiny sydd wedi bod yn gymaint o ased yn ystod y pandemig?**

- Rwy'n credu bod hwn yn bwynt y tu hwnt i'r cyflwyniad incwm sylfaenol – wrth gwrs, pe byddai incwm sylfaenol yn cael ei gyflwyno yn unol â'r diffiniad clasurol, yna byddai pobl mewn cyflogaeth amser llawn hefyd yn derbyn taliad, am y byddai'n ddi-amod yn wahanol i'r ffordd y mae Credyd Cynhwysol yn amodol. Byddai a fyddai lefel y taliad yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau yr ydych yn eu hamlygu yn ymwneud â dyluniad a gweithrediad y polisi.
- Mae llawer o dreialon incwm sylfaenol hyd yma wedi canolbwyntio ar y di-waith, felly mae'n anodd ateb y cwestiwn mewn perthynas â thystiolaeth bresennol o incwm sylfaenol.